Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Prince Llewellyn Farm

Treharris

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

04/09/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun

Prince Llewellyn Farm

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Values in Care Ltd
Lleoedd cofrestredig	5
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	06 Medi 2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae'r bobl sy'n byw yn Prince Llewellyn Farm yn cael lefel dda o ofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r ddogfennaeth gofal yn fanwl ac yn nodi anghenion gofal a chymorth y bobl yn glir. Mae'r asesiadau risg yn helpu i nodi a rheoli meysydd o bryder. Caiff y ddogfennaeth gofal ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol o hyd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y gwasanaeth a'u bod yn cael eu cefnogi i fyw bywyd egnïol. Rhoddodd perthnasau'r bobl adborth canmoliaethus ar y gwasanaeth y mae eu hanwyliaid yn ei gael hefyd. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Mae angen cryfhau'r broses recriwtio. Mae trefniadau llywodraethu addas ar waith sy'n helpu'r gwasanaeth i redeg yn ddidrafferth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac wedi cyflawni ei ddyletswyddau penodol diweddaraf. Mae polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith ac yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn daclus. Mae archwiliadau rheolaidd a rhaglen cynnal a chadw barhaus yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Llesiant

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag niwed a cham-drin. Mae mesurau ar waith sy'n hyrwyddo arferion gweithio diogel. Caiff y risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu hasesu a'u rheoli'n drylwyr. Mae polisi diogelu ar waith sy'n cynnwys y canllawiau statudol diweddaraf. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd i gefnogi eu datblygiad. Caiff digwyddiadau a damweiniau eu cofnodi a rhoddir gwybod i'r asiantaethau perthnasol amdanynt, a chaiff camau priodol eu cymryd i'w hatal rhag digwydd yn aml. Mae mesurau sicrhau ansawdd yn helpu i nodi meysydd o bryder a mynd i'r afael â nhw.

Mae gan y bobl lais a chânt eu trin â pharch ac urddas. Mae gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol â'r gweithwyr gofal sy'n darparu eu gofal a'u cymorth, ac mae'r cynlluniau gofal a chymorth yn fanwl ac yn adlewyrchu anghenion y bobl sy'n cael gofal. Caiff y bobl eu cynnwys wrth gynllunio ac adolygu eu gofal, gan eu rhoi wrth wraidd y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Gofynnir am safbwyntiau'r bobl i lywio gwelliannau yn y cartref.

Caiff iechyd a llesiant cyffredinol y bobl ei hybu. Mae gan y gwasanaeth weithdrefnau rheoli meddyginiaethau da ar waith a chaiff meddyginiaethau eu storio'n briodol a'u rhoi'n fel y'u rhagnodwyd. Gofynnir am gyngor gan weithwyr meddygol proffesiynol pan fo angen, a chaiff unrhyw weithwyr meddygol proffesiynol perthnasol eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu gofal. Caiff y bobl eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau, y mae llawer ohonynt yn cefnogi iechyd corfforol, iechyd meddwl a llesiant emosiynol y bobl.

Mae amgylchedd glân a chyfforddus yn helpu i gefnogi llesiant y bobl. Caiff y cartref ei gynnal a'i gadw i safon uchel ac mae rhaglen barhaus o waith cynnal a chadw ac atgyweirio ar waith. Caiff yr ystafelloedd gwely eu personoli'n unol â dewisiadau'r bobl ac mae digon o ardaloedd cymunedol ar gael. Mae rhestrau glanhau ac archwiliadau iechyd diogelwch rheolaidd yn hyrwyddo diogelwch a safonau glendid a hylendid da.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl a'u teuluoedd yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth a roddir. Caiff y bobl eu hannog a'u cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl. Gwelsom fod y bobl yn gallu cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau y maent yn eu mwynhau sy'n hyrwyddo cynhwysiant a rhyngweithio cymdeithasol. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod yn mwynhau mynd i gyngherddau ac i'r dafarn leol. Mae'r bobl yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref, a gwelsom weithwyr gofal yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau mewn amgylchedd hamddenol. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng y gweithwyr gofal a'r bobl drwy gydol yr amser y gwnaethom ei dreulio yn Prince Llewellyn Farm. Ymddengys fod y gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn rhoi cymorth iddynt yn dda a'u bod yn gyfarwydd â'u hanghenion a'u harferion. Rhoddodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw adborth cadarnhaol mewn perthynas â'r gweithwyr gofal. Dywedodd un, *“The staff are great, they do a good job”.* Cafwyd adborth cadarnhaol gan berthnasau'r bobl, a ddefnyddiodd eiriau fel *“excellent”, “really good”* a “*fantastic”* i ddisgrifio safon y gofal a'r cymorth a roddir.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth wedi'i deilwra'n benodol i'w hanghenion. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn rhoi cyfarwyddiadau i'r gweithwyr gofal ynglŷn â'r ffordd orau o gefnogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r wybodaeth a nodir yn y cynlluniau personol yn cynnwys cynlluniau gofal, asesiadau risg a chynlluniau rheoli. Mae rhai o'r dogfennau hyn wedi cael eu llunio gan ddefnyddio dull tîm amlddisgyblaethol arbenigol. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol a phasbortau cyfathrebu sy'n cefnogi annibyniaeth y bobl ac yn helpu i'w cynnwys. Caiff y cynlluniau personol eu llunio ar y cyd rhwng y bobl, eu cynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol eraill lle y bo'n briodol. Cynhelir adolygiadau o'r ddogfennaeth gofal yn rheolaidd a chaiff ei diweddaru os oes angen Mae awdurdodiadau Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ar waith ar gyfer y bobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u gofal a'u cymorth. Mae'r awdurdodiadau hyn yn sicrhau bod y gofal a'r cymorth a roddir a all amddifadu pobl o'u rhyddid, yn gyfreithlon.

Mae'r systemau rheoli meddyginiaethau yn ddiogel, ac mae'r bobl yn gallu cael gafael yn hawdd ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel a dim ond personél ag awdurdod a all gael gafael arnynt. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant perthnasol ac mae polisi meddyginiaeth ar waith sy'n hyrwyddo arferion diogel. Caiff meddyginiaethau eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn nodi unrhyw faterion a mynd i'r afael â nhw. Gwnaethom edrych ar nifer o siartiau cofnodi rhoi meddyginiaeth a gwelsom fod y bobl yn cael eu meddyginiaeth yn unol â chyfarwyddiadau'r rhagnodwr. Mae'r wybodaeth a gofnodir ar gynlluniau personol y bobl yn dangos eu bod yn gallu cael gafael yn hawdd ar weithwyr gofal proffesiynol pan fo angen. Gwelsom dystiolaeth o apwyntiadau gyda gweithwyr proffesiynol megis meddygon teulu, deintyddion ac optegwyr. Gwelsom gofnodion o ohebiaeth â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, ac roedd unrhyw gyngor a roddwyd wedi'i ddogfennu'n glir.

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant, Mae Prince Llewellyn Farm wedi'i leoli mewn tŷ deulawr ar gyrion pentref Treharris. Mae pob rhan o'r cartref yn lân ac yn daclus. Mae'r gweithwyr gofal yn dilyn rhestr glanhau sy'n hyrwyddo safonau glendid a hylendid da. Mae'r broses ar gyfer cael mynediad i'r cartref yn ddiogel, ac mae'n rhad i ymwelwyr lofnodi wrth gyrraedd a gadael. Caiff ystafelloedd gwely'r bobl eu personoli'n unol â'u dewisiadau penodol. Er enghraifft, roedd un o'r ystafelloedd a welsom yn cynnwys lluniau, addurniadau, eitemau bach i gofio, a systemau diddanu. Nid oedd un o'r ystafelloedd eraill a welsom yn cynnwys eitemau o'r fath am fod gan yr unigolyn sy'n ei defnyddio nam ar ei synhwyrau a byddai'n well ganddo gael llai o addurniadau. Mae digon o doiledau a chyfleusterau ymolchi ar gael ac maent yn cael eu cadw'n lân. Mae'r ardaloedd cymunedol yn cynnwys dwy lolfa enfawr a chegin / ystafell fwyta. Gwelsom bobl yn defnyddio'r ardaloedd cymunedol. Roeddent yn ymddangos wedi ymlacio, sy'n awgrymu eu bod yn hapus yn yr amgylchedd. Roedd y cyfleusterau cegin yn briodol ac yn galluogi'r bobl i gymryd rhan yn y gwaith o baratoi bwyd pe baent yn dymuno gwneud hynny. Dyfarnwyd sgôr o bedwar i'r cyfleusterau cegin gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sy'n awgrymu bod y safonau hylendid yn dda. Mae gan y cartref erddi aeddfed â seddau, lle y gall y bobl ymlacio neu gymryd rhan mewn gweithgareddau. Ceir hefyd dŷ haf sy'n cynnwys gemau a systemau adloniant a ddefnyddir yn rheolaidd gan y bobl. Mae mân-ddaliad yn gysylltiedig â'r eiddo lle mae'r darparwr yn cynnig gweithgareddau garddwriaethol i'r staff. Gall y bobl sy'n byw yn y cartref fynd i'r ardal hon os byddant yn dewis gwneud hynny.

Mae'r cartref yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda. Gwelsom ardystiad diogelwch cyfredol ar gyfer nodweddion diogelwch tân a chyfleustodau fel nwy a thrydan. Mae asesiad risg tân cyfredol ar waith ac mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel yn unol â rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd. Cynhelir archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd er mwyn nodi meysydd o bryder a mynd i'r afael â nhw. Gwnaethom gwblhau arolygiad gweledol o'r cartref a gwelsom fod cyfyngwyr ffenestri wedi'u gosod ar y ffenestri ar y llawr uchaf ac nad oedd annibendod na rhwystrau yn y cartref. Ni wnaethom nodi unrhyw beryglon amgylcheddol yn ystod yr arolygiad.

Arwain a Rheoli

Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau ac yn cael hyfforddiant i ddiwallu anghenion y bobl y maent eu cefnogi. Rhoddodd y gweithwyr gofal adborth cadarnhaol mewn perthynas â'u hamodau gweithio. Dywedodd un, *“I love working here, it’s great”.* Dywedodd gweithiwr gofal arall, *“I’ve worked here eight years, it’s a good place to work. It’s nice seeing the guys get on in life”.* Mae'r cofnodion goruchwylio ac arfarnu yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael y lefelau a argymhellir o gymorth ffurfiol. Mae'r broses hon yn rhoi cyfle i'r gweithwyr gofal nodi unrhyw gymorth y gall fod ei angen arnynt a thrafod eu cyfleoedd datblygu neu unrhyw bryderon neu faterion a all fod ganddynt. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym fod safon yr hyfforddiant a ddarperir yn dda, sy'n eu helpu i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd da. Gwnaethom edrych ar yr ystadegau hyfforddiant a oedd yn dangos cyfradd gydymffurfio o 95% â'r gofynion hyfforddiant.

Gwnaethom edrych ar broses recriwtio'r gwasanaeth a gwelsom fod angen cryfhau rhai agweddau arni er mwyn ei gwneud yn fwy cadarn. Mae'r ffeiliau personél yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth ofynnol, gan gynnwys geirdaon gan gyflogwyr blaenorol, dogfennau adnabod a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwelsom fod bylchau mewn hanes cyflogaeth yn rhai o'r ffeiliau personél y gwnaethom edrych arnynt. Fodd bynnag, rhoddodd y rheolwr sicrwydd i ni ei fod yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Pan fydd gweithwyr gofal yn dechrau eu cyflogaeth, rhaid iddynt gwblhau cyfnod sefydlu strwythuredig a byddant yn cael cyfle i gysgodi aelodau profiadol o'r tîm. Rhaid i'r gweithwyr gofal hefyd gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod y gweithwyr gofal yn meddu ar y cymwysterau sydd eu hangen i weithio yn y sector gofal.

Mae systemau ar waith i helpu i redeg y gwasanaeth yn ddidrafferth. Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, sicrhau ansawdd ac archwilio yn dda. Ymddengys fod yr Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth a ddarperir yn dda. Gwelsom dystiolaeth bod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn siarad â'r bobl a'r staff. Yn ystod yr ymweliadau hyn, mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn dadansoddi amrywiaeth o wybodaeth am agweddau fel staffio, cynlluniau personol a materion diogelu. Caiff adolygiad o ansawdd y gofal ei gwblhau bob chwe mis. Yn dilyn hyn, caiff adroddiad sy'n nodi cryfderau'r gwasanaeth a meysydd i'w datblygu ei gyhoeddi. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer meysydd fel cwynion, rheoli heintiau, meddyginiaeth a diogelu. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fo angen. Mae gwybodaeth ysgrifenedig arall fel y datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn disgrifio'r gwasanaeth yn gywir ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Mae'r dogfennau hyn ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys fformat hawdd ei ddarllen.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	**Ystyr pob un**
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
16	Nid yw'r darparwr yn cydymffurfio â Rheoliad 16 (1). Y rheswm dros hyn yw nad yw rhai o'r asesiadau risg a'r cynlluniau personol wedi cael eu hadolygu bob tri mis fel sy'n ofynnol.	Cyflawnwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

Dyddiad Cyhoeddi 13/10/2023